*Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 17(2) o Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

---

# 2015 Rhif (Cy. )

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

# Gorchymyn Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 (Addasu Canlyniadol) 2015

### NODYN ESBONIADOL

(*Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn*)

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud addasiad canlyniadol i Ddeddf Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1998 ("Deddf 1998").

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio adran 46(4) o Ddeddf 1998 drwy fewnosod cyfeiriad at Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"). Mae'r ddarpariaeth yn sicrhau na ellir erlyn person o dan Ddeddf 1998 a Deddf 2014 am drosedd sy'n codi o'r un ymddygiad.

Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi ei lunio ar gyfer y Gorchymyn hwn gan na ragwelir y bydd yn effeithio o gwbl ar y sector cyhoeddus, y sector preifat, y sector elusennol na'r sector gwirfoddol.

*Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 17(2) o Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U D R A F F T

# 2015 Rhif (Cy. )

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 (Addasu Canlyniadol) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *** |
| *Yn dod i rym* | *** |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 16 o Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Yn unol ag adran 17(2) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 (Addasu Canlyniadol) 2015 a daw i rym ar 9 Rhagfyr 2015.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 2014 (dccc 6).

**Addasu Deddf Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1998**

**2.** Mae adran 46(4) o Ddeddf Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1998(**1**) wedi ei haddasu fel a ganlyn—

(a) ar ddiwedd paragraff (b) hepgorer “and”;

(b) ar ddiwedd paragraff (c) mewnosoder—

“; and

(d) the Agricultural Sector (Wales) Act 2014.”

Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd, o dan awdurdod y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

(**1**) 1998 (p. 39). Mae adran 46(4)(a) wedi ei diddymu gan adran 72 o Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013 a pharagraff 2 o Atodlen 20 iddi. Nid yw’r diddymiad yn cael effaith yng Nghymru eto.